

CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

IS-DDEDDFWRIAETH

2006 Rhif 69

DEDDF Y GWASANAETH
IECHYD GWLADOL 1977

CYFARWYDDIADAU I
FYRDDAU IECHYD LLEOL
AC YMDDIRIEDOLAETHAU'R
GIG YNG NGHYMURU 2006

Wedi'u gwneud 25 Hydref 2006

Yn dod i rym 26 Hydref 2006

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adrannau 16BB(4), 17(1), 97F(8) a 126(4) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1977(1) drwy hyn yn rhoi'r cyfarwyddiadau a ganlyn —

Cychwyn, cymhwyso a dehongli

1.—(1) Daw'r Cyfarwyddiadau hyn i rym ar 26 Hydref a byddant yn gymwys i bob Bwrdd Iechyd Lleol ac ymddiriedolaeth GIG yng Nghymru.

(2) Mae'r Cyfarwyddiadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

(3) Yn y Cyfarwyddiadau hyn —

ystyr “y prif Gyfarwyddiadau” (“*the principal Directions*”) yw'r Cyfarwyddiadau i Fyrddau Iechyd Lleol ac ymddiriedolaethau GIG yng Nghymru ynghylch Trefniadau i Gyllido Canllawiau Gwerthuso Technoleg oddi wrth y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol (NICE) dyddiedig 23 Hydref 2003(2).

(1) 1977 (p.49). Disodlwyd adran 17 gan adran 12(1) o Ddeddf Iechyd 1999 (p.8) (“Deddf 1999”) ac fe'i diwygiwyd gan Atodlen 5, Rhan I, paragraff 5(1) a (3) i Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2001 (p.15). Ychwanegwyd adrannau 16BB a 97F gan adrannau 6 a 9 yn y drefn honno o Ddeddf Diwygio'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Phroffesiynau Gofal Iechyd (p.17). Trosglwyddwyd y swyddogaethau o dan adrannau 17 a 126(4), i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru, i'r Cynulliad gan erthygl 2(a) o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999, (O.S. 1999/672).

(2) Diwygiwyd y Prif Reoliadau gan Gyfarwyddiadau dyddiedig 23 Rhagfyr 2003, 4 Mawrth 2004, 8 Chwefror 2005 a 3 Ebrill 2006.

(4) Mae'r Cyfarwyddiadau hyn yn diwygio'r prif Gyfarwyddiadau.

Diwygio paragraff 3 o'r Prif Gyfarwyddiadau

2.—(1) Ym mharagraff 3 o'r Prif Gyfarwyddiadau (Canllawiau Gwerthuso Technoleg Esempt) ar ddiwedd paragraff 3(1)(B) mewnosoder y canlynol —

“(1)(C) O ran Canllawiau Gwerthuso Technoleg (Rhif 102) ar raglenni hyfforddi/addysgu rhieni wrth reoli anhwylderau ymddygiad dyddiedig 26 Gorffennaf 2006 mae paragraff 2 o'r Cyfarwyddiadau yn gymwys ac eithrio y rhodder y geiriau “twenty four months” yn lle'r geiriau “three months”.”.

(2) Ym mharagraff 3 mewnosoder fel paragraff 3.(2)(e) —

“(e) y Canllawiau Gwerthuso Technoleg (Rhif 105) ar lawdriniaeth laparosgopig at ganser colorectol dyddiedig 23 Awst 2006”.

Llofnodwyd

Dyddiad 25 Hydref 2006

BRIAN GIBBONS
Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau
Cymdeithasol